PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC

DYDD MAWRTH, 27 MEDI 2016

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Richard Cook(Caedeirydd) |
| | Y Cynghorwyr Boyle, Chaundy, Gordon, Joyce, Murphy a/ac Dianne Rees |

16 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Thorne a Hayley Smith

17 : DATGAN BUDDIANNAU

Aeth y Cadeirydd ati i atgoffa Aeloadu am eu cyfrifoldebau o dan Rhan 3 Cod Ymddygiad yr Aelodau.

Ni ddaeth unrhyw ddatganiadau o fuddiannau i law.

18 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfodydd y cydbwyllgor a gynhaliwyd ar 17 Mai 2016 (cyfarfod galw i mewn), 17 Mai 2016, 14 Mehefin 2016, 11 Gorffennaf 2016 ac 11 Gorffennaf July 2016 yn gofnodion cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

19 : MONITRO PERFFORMIAD ADDYSG – CAERDYDD 2020, ADRODDIAD PERFFORMIAD CORFFORAETHOL CHWARTER 1 A CHYFLWYNO CANLYNIADAU YSGOLION

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sarah Merry (Aelo Cabinet dros Addysg), Nick Batchelar (Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes) Suzanne Scarlett a Natalie Stork i'r cyfarfod.

CAERDYDD 2020

Dangoswyd y DVD ar gyfer Digwyddiad Lansio Caerdydd 2020 a hefyd sioe sleidiau yn cynnwys ffotograffau a dynnwyd yn y lansiad ar 29 Mehefin 2016.

Dywedwyd wrth Aelodau y bydd cyflwyniad yng nghyfarfod y pwyllgor ym mis Rhagfyr yn rhea gwybodaeth o ran sut y caiff perfformiad ei reoli yn erbyn y strategaeth honno.

Gwahoddwyd y Pwyllgor i wneud sylwadau, codi cwestiynau neu ofyn am eglurhad yn seiliedig ar y wybodaeth dan sylw.

Dyma grynodeb o'r trafodaethau hynny:

- Dywedwyd wrth Aelodau bod y DVD ar gael ar wefan y Cyngor ac ar YouTube.
- Gofynnodd Aelodau am wybodaeth o ran ba fusnesau oedd yn bresennol yn y digwyddiad a dywedwyd wrthynt bod cynrychiolwyr o Principality, Aldi, Lloyds,

Da Vinci, Wilmot Dixon a Chlwb Criced Morgannwg yn bresennol ymysg eraill. Bydd Aelodau yn cael yr holl fanylion am hyn.

ADRODDIAD PERFFORMIAD CORFFORAETHOL CHWARTER 1 A CHYFLWYNO CANLYNIADAU YSGOLION

Gwnaeth y Cynghorydd Merry ddatganiad i'r Pwyllgor a oedd yn nodi y bu newyddion da o ran canlyniadau ysgolion dros yr haf. Mae canlyniadau Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 yng Ngaerdyd yn gwella'n gyflymach nag unrhyw ardal arall yng Nghymru. Mae pryderon o hyd o ran y gwahaniaeth rhwng perfformiad disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr y canlyniadau dros dro ar gyfer Chwarter 2 Blwyddyn Academaidd 2015/16 i Aelodau hefyd.

Gwahoddwyd y Pwyllgor i wneud sylwadau, codi cwestiynau neu ofyn am eglurhad yn seiliedig ar y wybodaeth dan sylw.

Dyma grynodeb o'r trafodaethau hynny:

- Holodd Aelodau beth sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael a nifer y bobl ifanc nad ydynt yn symud ymlaen i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant. Dywedodd Swyddogion mai un o amcanion y cynllun yw atal pobl ifanc rhag dod yn bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) ar ol blwyddyn 11. Mae'r mwyafrif helaeth o'r garfan 3000+ wedi dechrau mewn addysg, cyflogaet neu hyfforddiant yn llwyddiannus, er mai'r dyddiad cau ar gyfer cadarhau'r wybodaeth honno yw 31 Hydref 2016.

  Dywedwyd wrthynt hefyd bod mwy o weithwyr ieuenctid ar gael erbyn hyn o ganlyniad i gais llwyddiannus Gronfa Gymdeithasol Ewrop; mae'r dulliau cyfathrebu wedi gwella; mae gweithwyr cynnwys ieuenctid yn fwy gweladwy ac wedi bod yn perfformio'n dda.

- Dywedwyd wrth Aelodau bod adolygiad o ddarpariaeth nad yw'n ddarpariaeth ysgol wedi'i gomisiynu ac y bydd adroddiad ar hyn yn cael ei gyflwyno'n ddiweddarach yn ystod y flwyddyn.

- Holodd Aelodau am natur Dinas sy'n Ystyrlon o Blant. Cyflwynodd Swyddogion wybodaeth am y Rhaglen Partneriaid Hawliau'r Plentyn; dull partneriaeth sy'n gweithio i wella'r ddarpariaeth i Blant a Phob Ifanc mewn ymdrech i'w cynnwys yn well. Bydd gofyn nodi partneriaid penodol, bydd rhaid cael ymrwymiad gwleidyddol a bydd angen gwneud cais mewn ymateb i'r Prospectws a gaff ei gyhoeddi gan UNICEF maes o law.

- Holodd Aelodau p'un ai a yw'r Fframwaith Perfformiad Corfforaethol newydd yn ddigonol i reoli perfformiad. Atebodd Swyddogion y byddai'n well petai modd gwneud gwaith addasu pellach arno.

  Mae'r fformat adroddiad hwn yn gofyn am lawer o naratif ac nid yw'n manylu ar y meysydd hynny lle ceir tangyflawniad o hyd.

- Cyfeiriodd Aelodau at lefelau absenoldeb salwch. Cadarnhaodd Swyddogion y cafwyd sawl achos o salwch tymor hir sy'n gallu bod yn anodd mynd i'r afael ag o, fodd bynnag, caiff hynny ei fonitro'n rheolaidd. Nid oedd Swyddogion o'r farn fod y ffigurau a gyflwynwyd yn amlygu'r ffaith bod baich gwaith staff yn rhy fawr.

- Gofynnodd Aelodau am wybodaeth o ran p'un ai a fyddai'r oedi mewn cysylltiad ag agor Ysgol Gynradd Howardian yn effeithio ar yr amserlen ar gyfer agor y ddwy ysgol gynradd newydd arall, ac os felly, beth fyddai'r oblygiadau o ran y costau. Dywedwyd wrth Aelodau y rhagwelir y bydd oedi fodd bynnag, mae'r oedi hwnnw yn golygu gwell gwerth am arian ac na fydd o unrhyw anfantais.

- Gofynnod Aelodau beth fydd yn digwydd petai Ysgolion Cynradd yn methu a bwrw targedau presenoldeb a dywedwyd wrthynt nad oes modd rhagweld ar hyn o bryd os caiff dyfarniad Ynys Wyth effaith sylweddol.

<u>CANLYNIADAU</u>

- Nododd Aelodau y wybodaeth a ddarparwyd mewn perthynas a Dangosydd Pynciau Craidd Cyfnod Allweddol 2 gan holi am y data sy'n sail iddynt. Dywedodd Swyddogion er bod targedau y seiliedig ar garfanau mae gofyn delio a niferoedd mawr ohonynt. Mae'r targedau yn fwriadol uchelgeisiol wrth ddefnyddio adoddau Ymddiriedolaet y TeuluFisher. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar grynhoi targedau lefelau disgyblion.

- Yn y Cyfnod Sylfaen, nododd Aelodau mai'r maes gwanaf yw Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a dywedwyd wrthynt, gan gyfeirio'n benodol at ddatblygiad iaith, y dylent fod yn ymwybodol o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Dechrau'n Deg a'r athrawon teithiol sy'n hyfforddi ac yn rhoi cymorth i staff lleoliadau gofal plant.

- Roedd Aelodau yn pryderu o hyd bod perfformiad bechgyn yn dal i fod yn is na pherfformiad merched gan ofyn a oes modd priodoli'r bwlch i unrhyw beth penodol. Dywedwyd wrth Aelodau bod gwaith ymchwil yn dal i fynd rhagddo fodd bynnag bod angen dadansoddi'r wybodaeth yn fanwl gwir ac mai'r gred yw mai'r'r Consortiwm ddylai fod yn gwneud hynny.

- Gofynodd Aelodau beth yw barn swyddogion am Benaethiaid yn cymryd cyfrifoldeb am fwy nag un ysgol. Dywedod Swyddogion y dylid anno hynny a'u bod yn credu mewn Ffedereiddio Ysgolion, fodd bynnag mae'n rhaid eu trin yn ofalus.

- Trafododd Aelodau ganlyniadau lefelu mewn ysgolion a'r profion Rhifedd a LLythrenned a ph'un a ddylai' gyfradd gwella fod y gymesur a dywedwyd Swyddogion wrthynt eu bod yn mesur pethau gwahanol. Mae pryderon o ran cymedroli wedi'u codi gyda'r Consortiwm.

CYTUNWYD: Y byddai'r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet perthnasol yn diolch iddi hi a'r swyddogion am ddod i'r cyfarfod a chyfleu'r sylwadau a drafodwyd gan y Pwyllgor o ran y ffordd ymlaen.

20 : GWASANAETHAU PLANT – PERFFORMIAD CHWARTER 1 2016/17 AC ADRODDIAD PERFFORMIAD ALLDRO BLYNYDDOL AR GYFER 2015/16

Croesawodd y Cadeiryd Tony Young, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, i'r cyfarfod i gyflwyno'r adroddiad.

Dywedwyd wrth Aelodau y bydd y newidiadau yn y dangosyddion perfformiad a chyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeihasol a Llesiant (Cymru) yn ei gwneud yn anodd i roi trosolwg llawn o ran perfformiad, fodd bynnag, mae'r alldro blynyddol wedi dangos yn gyffredinol bod y duedd yn un bositif ac y gwnaed cynnydd mewn nifer o feysydd straegol allweddol er bu peth diffyg mewn perthnas a recriwitio a chadw gweithwyr cymdeithasol plant. Mae gwaith eisioes yn mynd rhagddo i ystyried cyfleoedd ar gyfer hyfforddian o fewn y Cyngor.

Gwahoddwyd y Pwyllgor i wneud sylwadau, codi cwestiynau neu ofyn am eglurhad yn seiliedig ar y wybodaeth dan sylw.

Dyma grynodeb o'r trafodaethau hynny:

- Holodd Aelodau p'un a yw'r Fframwaith Perfformiad Corfforaethol yn ddigonol i reoli perfformiad. Dywedo y Cyfarwyddwr bod ffyrdd eraill o fonitro perfformiad a'i fod ef yn cael adroddiadau yn rheolaidd. Mae hefyd Adroddiadau Cyflawni Cyfarwyddiaeth, y Fframwaith Sicrwydd Ansawdd a'r Fframwait Adroddiad Blynyddol.

- Cyfeiriodd Aelodau at y lefelau perfformiad isel mewn perthynas a chwblhau Cynlluniau Addysg Personol mewn da bryd. Roedd y Cyfarwyddwr yn cydnabod yr her barhaus o wella perfformiad mewn perthynas a'r cynlluniau hyn ond dywedodd bod gan bob plentyn sy'n derbyn gofal gynllun addysg personol hyd yn oed os yw hwnnw'n destun oedi yn y tymor byr. Dywedodd y Cyfarwyddwr nad oedd targed sy'n gofyn am gwblhau 100% o'r Cynlluniau Addysg Personol o fewn cyfnod penodol yn gyflawnadwy.

- Cadarnhawyd bod y rhestr berthnasol o ran Dangosydion Cenedlaethol Gwasanaethau Plant yn cael ei rhannu gyda'r gwasanaeth Addysg.

- Holodd Aelodau ynghylch ddefnyddioldeb y broses o bennu'r Gyllideb o ystyried y cadarnhawyd y Gyllideb ar 28 Chwefror ac erbyn 1 Mawrth bod gorwariant wedi'i gofnodi. Dywedwyd wrth Aelodau nad oedd y broses yn ddiytyr, etifeddwyd £800,00 o arbedion cudd – roedd yr Awdurdod wedi cael ei siomi'n arw gan ddarparwr sector preifat. Roedd hefyd y costau yn gysylltiedig a chyngor a chymorth cyfreithiol

- Dywedodd y Cyfarwyddwr wrth yr Aelodau, rhwng 1 Mehefin a 17 Gorffennaf, y derbyniwyd 39 o blant i ofal yr awdurdod. Roedd hwn yn ffigwr nas gwelwyd ei debyg erioed o'r blaen. Nid oedd llawer o'r plant dan sylw yn hysbys i'r awdurdod ac ei fod wedi ystyried pob cais unigol. O ganlyniad gwelwyd cynnydd o £1m yn lefel y gorwariant. Ymhlith y 39 o blant roedd sawl grwp o frodyr a chwiorydd. Mae rhoi cymorth i blentyn yn y cartref yn dal yn fwy cost effeithiol nag anfon plenty i leoliad gofal preswyl, fodd bynnag, mewn

perthynas a’r plant y cyfeiriwyd atynt uchod doedd dim dewis ond eu hanfon i leoliadau gofal yr awdurdod lleol.

- Dywedwyd wrth Aelodau bod argyfwng yn y maes gofal yng Nghymru a Lloegr ac efallai y dylid gwneud cais i Lywodraeth Cymru am swm o arian arbennig i Gaerdydd yn sgil y twf yn y boblogaeth.

CYTUWYD: Y bydda’r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet perthnasol i gyfleu’r sylwadau a drafodyd gan y Pwyllgor oran y ffordd ymlaen.

21 : ADRODDIAD RHAGLEN WAITH 2016/2017

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno rhaglen waith am y flwyddyn gron i’r Pwyllgor:

PENDERFYNWYD:

- I gytuno ar Amserlen y Rhaglen Waith arfaethedig ar gyfer 2016/17, fel y nodwyd yn Atodiad A yn yr adroddiad.
- I gyflawni Ymchwiliadau Grwp Gorchwyl a Gorffen fel y nodir ym mharagraff 11, y unol a Rhan 1 rheolau’r weithdrefn Graffu, a galw am enwebiada ar gyfer yr ymchwiliad cyntaf y cytuna’r Pwyllgor i’w gyflawni.
- Galw am enwebiadau ar gyfer aelodaeth Panel Monitro’r Gyllideb fel y nodir ym mharagraff 7.

22 : ADRODDIAD GOHEBIAETH

Roedd yr adroddiad hwn yn rhoi’r newyddion diweddaaf i’r Pwyllgor am unrhyw ohebiaeth ynghyd a chrynodeb o’r atebion a ddaeth law mewn ymateb i lythyrau a afonwyd.

PENDERFYNWYD: I nodi’r adroddiad a’r ymatebion i’r llythyrau anfonwyd gan y Pwyllgor.

23 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir cyfarfod rheolaidd nesaf y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc am 2.30 pm, ddydd Mawrth 18 Hydref 2016.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.50 pm